# Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

**2010 mccc 1**

## RHAN 3

TIMAU INTEGREDIG CYMORTH I DEULUOEDD

*Byrddau*

### 61 Sefydlu byrddau integredig cymorth i deuluoedd

(1) Rhaid i bob awdurdod lleol sefydlu bwrdd integredig cymorth i deuluoedd ynglŷn â thîm neu dimau a sefydlwyd ar gyfer ei ardal o dan adran 57.

(2) Os bydd dau awdurdod lleol (neu fwy) sy'n gweithredu gyda'i gilydd yn sefydlu tîm neu dimau integredig cymorth i deuluoedd ar gyfer eu dwy ardal (neu bob un o'u hardaloedd), rhaid i'r awdurdodau sefydlu un bwrdd integredig cymorth i deuluoedd.

(3) Rhaid i fwrdd a sefydlir o dan yr adran hon gynnwys pob un o'r canlynol—

(a) cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol;

(b) os nad cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol yw'r cyfarwyddwr arweiniol dros wasanaethau plant a phersonau ifanc (o fewn ystyr adran 27(1)(a) o Ddeddf Plant 2004 (p. 21)), y cyfarwyddwr arweiniol dros wasanaethau plant a phersonau ifanc;

(c) y swyddog arweiniol dros wasanaethau plant a phersonau ifanc (o fewn ystyr adran 27(2)(a) o Ddeddf Plant 2004 (p. 21)) o bob un o'r Byrddau Iechyd Lleol y mae unrhyw ran o'u hardal yn dod o fewn yr ardal y mae'r tîm yn ei chwmpasu.

(4) Rhaid i fwrdd a sefydlwyd ar gyfer mwy nag un awdurdod lleol gynnwys y personau a grybwyllir ym mharagraffau (a) a (b) o is-adran (3) o bob awdurdod lleol.

(5) Caiff awdurdod lleol benodi aelodau eraill i fwrdd gyda chydsyniad pob Awdurdod Iechyd Lleol sy'n ymwneud â'r tîm integredig cymorth i deuluoedd.

(6) Mae aelod a benodir o dan is-adran (5) yn dal ei swydd ac yn ymadael â hi yn unol â thelerau'r penodiad.

(7) Caiff awdurdod lleol dalu taliadau a lwfansau i aelod a benodir o dan is-adran (5).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 61 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 75(3)**

**I2** A. 61 mewn grym ar 1.9.2010 at ddibenion penodedig gan O.S. 2010/1699, ergl. 2, **Atod. 1**

**I3** A. 61 mewn grym ar 28.2.2012 at ddibenion penodedig gan O.S. 2012/191, ergl. 3, **Atod. 2**

**I4** A. 61 mewn grym ar 31.3.2012 at ddibenion penodedig gan O.S. 2012/191, ergl. 4, **Atod. 2**

## 62 Swyddogaethau byrddau integredig cymorth i deuluoedd

(1) Amcanion y byrddau integredig cymorth i deuluoedd yw—

(a) sicrhau effeithiolrwydd yr hyn a wneir gan y timau integredig cymorth i deuluoedd y maent yn ymwneud â hwy;

(b) hybu arferion da gan yr awdurdodau lleol a'r Byrddau Iechyd Lleol sy'n cymryd rhan yn y timau o ran y swyddogaethau a bennir i'r timau;

(c) sicrhau bod gan fyrddau integredig cymorth i deuluoedd adnoddau digonol i gyflawni eu swyddogaethau;

(d) sicrhau bod yr awdurdodau lleol a'r Byrddau Iechyd Lleol sy'n cymryd rhan yn y timau integredig cymorth i deuluoedd yn cydweithredu â'r timau integredig cymorth i deuluoedd wrth iddynt gyflawni swyddogaethau'r timau.

(2) Mae bwrdd integredig cymorth i deuluoedd i gael y cyfryw swyddogaethau o ran ei amcanion ag a ragnodir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** A. 62 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 75(3)**

**I6** A. 62 mewn grym ar 1.9.2010 at ddibenion penodedig gan O.S. 2010/1699, ergl. 2, **Atod. 1**

**I7** A. 62(1) mewn grym ar 28.2.2012 at ddibenion penodedig gan O.S. 2012/191, ergl. 3, **Atod. 2**

**I8** A. 62(1) mewn grym ar 31.3.2012 at ddibenion penodedig gan O.S. 2012/191, ergl. 4, **Atod. 2**

**I9** A. 62(2) mewn grym ar 27.1.2012 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2012/191, ergl. 2, **Atod. 1**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 31/03/2012.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, Croes Bennawd: Byrddau.